

Canllawiau ar gyfer llunio datganiad o ddiben

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Cynnwys	Rhif y dudalen
Rhan 1: Gwybodaeth am y datganiad o ddiben	<u>2</u>
Beth yw datganiad o ddiben	<u>2</u>
I bwy mae'r datganiad o ddiben?	<u>2</u>
A oes angen mwy nag un datganiad o ddiben ar ddarparwr gwasanaethau?	<u>2</u>
Pryd mae angen diwygio'r datganiad o ddiben?	<u>3</u>
Y cyd-destun cyfreithiol ar gyfer y datganiad o ddiben	<u>3</u>
Cysylltiadau a'r Datganiad Blyneddol	<u>4</u>
Rhan 2: Templed ar gyfer datganiad o ddiben	<u>5</u>
Adran 1 – Ynghylch y darparwr	<u>6</u>
Adran 2 – Disgrifiad o leoliad y gwasanaeth	<u>7</u>
Adran 3 – Yr amrywiaeth o anghenion sydd gan yr unigolion y caiff y gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu iddynt	<u>8</u>
Adran 4 – Sut y darperir y gwasanaeth	<u>10</u>
Adran 5 – Trefniadau staffio	<u>13</u>
Adran 6 – Cyfleusterau a gwasanaethau	<u>15</u>
Adran 7 – Trefniadau llywodraethu a monitro ansawdd	<u>16</u>
Geirfa	<u>21</u>

Rhan 1: Gwybodaeth am y datganiad o ddiben

1. Beth yw datganiad o ddiben?

- 1.1. Mae'r datganiad o ddiben yn ddogfen allweddol. Caiff ei lunio ar eich cyfer chi, y rheoleiddiwr a'r comisiynwyr yn bennaf. Mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a'ch dyheadau ar gyfer diwallu anghenion y bobl yr ydych yn gofalu amdanynt. Dylai ddangos yn eglur eich bod yn deall eu hanghenion yn llawn a dangos sut, yn enwedig trwy lefelau a hyfforddiant staff, y trefnau gofal, yr amgylchedd a'ch cysylltiadau ag asiantaethau eraill, y byddwch yn gwneud eich gorau i hybu'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl yr ydych yn gofalu amdanynt.
- 1.2. Rhaid i'r wybodaeth yn eich datganiad o ddiben fod yn gywir, rhaid ei chadw'n gyfredol, a dylai bob amser adlewyrchu'r amrywiaeth o anghenion y gall eich gwasanaeth eu diwallu, gan gynnwys unrhyw wasanaethau arbenigol. Wrth baratoi neu ddiweddarau datganiad o ddiben, dylai darparwyr gwasanaethau ystyried y drosedd o wneud datganiad anwir o dan Adran 47 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016).

2. I bwy mae'r datganiad o ddiben?

- 2.1. Mae'r datganiad o ddiben yn ofyniad cyfreithiol. Os ydych yn gwneud cais i gofrestru gwasanaeth gyda ni, rhaid i chi gynnwys datganiad o ddiben fel rhan o'ch cais. Bydd hyn yn dweud y canlynol wrthym:
 - a) manylion amdanoch chi;
 - b) lle mae'r gwasanaeth;
 - c) y math o wasanaeth rydych yn ei ddarparu;
 - ch) nodau ac amcanion y gwasanaeth; a
 - d) sut bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.
- 2.2. Er y gellir defnyddio'r datganiad o ddiben i ddarparu gwybodaeth i unrhyw un a allai fod â diddordeb yn eich gwasanaeth, y prif ddefnydd a wneir ohono o dan Ddeddf 2016 yw darparu meincnod ar eich cyfer chi, y rheoleiddiwr a'r comisiynwyr i fesur sut mae'r gwasanaeth yn perfformio.
- 2.3. Pan fyddwn yn ystyried eich cais i gofrestru, bydd angen i ni fod yn fodlon y bydd eich gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth briodol ar gyfer llesiant pobl a'i fod yn gallu bodloni'r safonau sydd eu hangen yn y rheoliadau. Bydd y datganiad o ddiben yn brif ffynhonnell o dystiolaeth a ddefnyddir gennym i lywio penderfyniadau i ganiatáu neu wrthod ceisiadau ar gyfer cofrestru ac amrywio cofrestriad.
- 2.4. Ar ôl cofrestru, byddwn yn ystyried a yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben yn ystod pob arolygiad.

3. A oes angen mwy nag un datganiad o ddiben ar ddarparwr gwasanaethau?

- O ran gwasanaethau llely, mae angen datganiad o ddiben ar gyfer pob lleoliad lle y darperir gwasanaeth.
- O ran gwasanaethau cymorth cartref, mae angen datganiad o ddiben ar gyfer pob ardal partneriaeth ranbarthol lle y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

- O ran gwasanaethau maethu, mabwysiadu, lleoli oedolion ac eiriolaeth, dim ond un datganiad o ddiben sydd ei angen ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir mewn unrhyw le yng Nghymru.

4. Pryd mae angen diwygio'r datganiad o ddiben?

- 4.1. Dylech ddiwygio eich datganiad o ddiben pan fyddwch yn gwneud newidiadau sy'n golygu nad yw bellach yn disgrifio'r gwasanaeth yr ydych chi'n ei ddarparu a/neu sut y caiff ei ddarparu'n gywir. Dylech adolygu eich datganiad o ddiben o leiaf unwaith y flwyddyn neu pan gaiff newidiadau eu gwneud i'r gwasanaeth.
- 4.2. Pan fydd newidiadau arwyddocaol ar droed yn y gwasanaeth, mae angen hysbysu'r rheoleiddiwr o'r newidiadau arfaethedig 28 o ddiwrnodau ymlaen llaw gan ddefnyddio ein proses hysbysu ar-lein. Bydd angen i chi gyflwyno eich datganiad o ddiben diwygiedig.

Mae enghreifftiau o newidiadau arwyddocaol yn cynnwys:

- pan fydd gwasanaeth nad yw'n darparu gofal nyrsio yn bwriadu darparu gofal nyrsio;
- darparu gwasanaethau arbenigol ychwanegol, e.e. gofal lliniarol neu niwed i'r ymennydd;
- pan fydd gwasanaeth penodol y cyfeirir ato yn y datganiad o ddiben yn cael ei dynnu'n ôl; neu
- newidiadau i'r trefniadau staffio arferol, fel y disgrifir yn Adran 5 o'r datganiad o ddiben.

Cyfeiriwch at Adran 3 'Yr amrywiaeth o anghenion sydd gan yr unigolion y caiff y gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu iddynt'.

- 4.3. Byddwn yn ystyried y newidiadau arfaethedig, a bydd angen i ni fod yn fodlon â'r canlynol:
 - a) bydd eich gwasanaeth yn parhau i gyflwyno darpariaeth briodol ar gyfer llesiant y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaeth;
 - b) bydd yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol dan y rheoliadau; ac
 - c) ni fydd yn cynnwys newid a fydd yn gofyn i chi wneud cais ar gyfer amrywio eich cofrestriad.

5. Y cyd-destun cyfreithiol ar gyfer y datganiad o ddiben:

- 5.1. Mae Atodlen 2 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth leiaf sy'n rhaid ei chynnwys yn y datganiad o ddiben. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ofynnol hon yn [atodiad 2](#).
- 5.2. Mae Rheoliadau 3, 4, 6, 7 ac 8 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol a Chofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2019, yn rhoi gofynion penodol ar y darparwr o ran y datganiad o ddiben wrth wneud cais i gofrestru neu amrywio gwasanaeth rheoleiddiedig. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ofynnol hon yn [atodiad 1](#).
- 5.3. Yn ogystal â hyn, cyfeirir at y datganiad o ddiben mewn llawer o reoliadau o fewn y canlynol:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion mewn cyswllt â darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol.

6. Cysylltiadau â'r Datganiad Blynyddol

6.1. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig gyflwyno datganiad blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a nodir yn adran 10 o Ddeddf 2016 a rheoliadau'r datganiad blynyddol¹ a wnaed o dan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys darparu datganiad cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth a nodir yn y rheoliadau. Mae'r datganiad cydymffurfiaeth yn canolbwyntio ar y canlyniadau allweddol canlynol:

- 1) Bod pobl yn teimlo bod eu lleisiau yn cael eu clywed, y gallant ddewis eu gofal a'u cymorth a bod cyfleoedd ar gael iddynt.
- 2) Bod pobl yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd a'u datblygiad parhaus a'u llesiant cyffredinol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol i blant.
- 3) Bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- 4) Bod pobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi eu llesiant ac yn rhoi cymorth iddynt gyflawni eu hamcanion personol yn y ffordd orau (ar gyfer gwasanaethau llety yn unig).

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r datganiad o ddiben yn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cyflawni amcanion pobl yn glir.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1097/contents/made>

Rhan 2

Templed ar gyfer Datganiad o Ddiben

Mae'r templed hwn hefyd ar gael fel dogfen ar wahân ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru (<https://arolygiaethgofal.cymru>).

Adran 1: Ynghylch y darparwr

Darparwr y gwasanaeth	<i>Enw'r darparwr cofrestredig dylid ei nodi yma</i>																										
Cyfeiriad darparwr y gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Os mai sefydliad yw'r ymgeisydd, dylid nodi cyfeiriad prif swyddfa neu swyddfa gofrestrdedig y sefydliad</i> • <i>Os mai unigolyn yw'r ymgeisydd, dylid nodi cyfeiriad gohebu'r unigolyn;</i> 																										
Endid cyfreithiol	<table border="0"> <tr> <td>Unigolyn</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Cwmni cyfyngedig</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Cwmni cyfyngedig cyhoeddus</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Cwmni elusengar</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Sefydliad corfforedig elusengar</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Corff corfforaethol arall</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Pwyllgor</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Ymddiriedolaeth elusengar</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Corff anghorfforedig arall</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Awdurdod lleol</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Bwrdd iechyd lleol</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Partneriaeth</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> </table>	Unigolyn	<input type="checkbox"/>	Cwmni cyfyngedig	<input type="checkbox"/>	Cwmni cyfyngedig cyhoeddus	<input type="checkbox"/>	Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig	<input type="checkbox"/>	Cwmni elusengar	<input type="checkbox"/>	Sefydliad corfforedig elusengar	<input type="checkbox"/>	Corff corfforaethol arall	<input type="checkbox"/>	Pwyllgor	<input type="checkbox"/>	Ymddiriedolaeth elusengar	<input type="checkbox"/>	Corff anghorfforedig arall	<input type="checkbox"/>	Awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>	Bwrdd iechyd lleol	<input type="checkbox"/>	Partneriaeth	<input type="checkbox"/>
Unigolyn	<input type="checkbox"/>																										
Cwmni cyfyngedig	<input type="checkbox"/>																										
Cwmni cyfyngedig cyhoeddus	<input type="checkbox"/>																										
Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig	<input type="checkbox"/>																										
Cwmni elusengar	<input type="checkbox"/>																										
Sefydliad corfforedig elusengar	<input type="checkbox"/>																										
Corff corfforaethol arall	<input type="checkbox"/>																										
Pwyllgor	<input type="checkbox"/>																										
Ymddiriedolaeth elusengar	<input type="checkbox"/>																										
Corff anghorfforedig arall	<input type="checkbox"/>																										
Awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>																										
Bwrdd iechyd lleol	<input type="checkbox"/>																										
Partneriaeth	<input type="checkbox"/>																										
Unigolyn cyfrifol	<i>Enw'r person a ddynodwyd fel yr unigolyn cyfrifol dylid ei nodi yma</i>																										
Rheolwr y gwasanaeth	<i>Enw'r person a fydd yn rheoli'r gwasanaeth o un dydd i'r llall dylid ei nodi yma.</i>																										
Enw'r gwasanaeth																											
Cyfeiriad y gwasanaeth	<i>Dylid nodi cyfeiriad y man lle y caiff y gwasanaeth ei ddarparu neu gyfeiriad y swyddfa neu gyfeiriadau'r swyddfeydd lle y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.</i>																										
Cyfeiriad perthnasol arall (gwasanaethau cymorth cartref, maethu, mabwysiadu, lleoli oedolion ac eiriolaeth yn unig)	<i>Dylid nodi cyfeiriad unrhyw swyddfa neu swyddfeydd eraill a ddefnyddir mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth.</i>																										

Adran 2: Disgrifiad o leoliad y gwasanaeth

a) Gwasanaethau llety

Dylai'r adran hon gynnwys lle mae'r gwasanaeth a disgrifiad o'r ardal, y cyfleusterau cymunedol a'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi anghenion amrywiol y bobl y bwriedir y gwasanaeth ar eu cyfer, fel y disgrifiwyd yn Adran 3.

b) Gwasanaethau cymorth cartref

Hon fydd yr ardal partneriaeth ranbarthol y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ynddi. Cyfeiriwch at y canllawiau ar y Datganiad o Ddiben am fanylion llawn pob ardal partneriaeth ranbarthol.

(ticiwch yr ardal lle y darperir y gwasanaeth)

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys

c) Gwasanaethau mabwysiadu, maethu, lleoli oedolion ac eiriolaeth

Bydd hwn yn ddisgrifiad o'r ardal lle y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, e.e. Cymru gyfan.

Adran 3: Yr amrywiaeth o anghenion sydd gan yr unigolion y caiff y gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu iddynt

a) Yr amrediad o anghenion y gallwn eu cynorthwyo

Gwasanaethau llety a gwasanaethau cymorth cartref. Yn yr adran hon, disgrifiwch yr amrediad o anghenion iechyd neu ofal y bydd y gwasanaeth yn darparu cymorth ar eu cyfer, gan gynnwys unrhyw wasanaethau/darpariaeth gofal arbenigol. Hefyd, nodwch fanylion y gofal a'r cymorth y mae'r gwasanaeth yn eu cynnig ac i bwy.

Gwasanaethau maethu, mabwysiadu, lleoli oedolion ac eiriolaeth. Yn yr adran hon, disgrifiwch yr amrediad o anghenion y gall eich gwasanaeth ddarparu cymorth ar eu cyfer, er enghraifft cyn ac ar ôl paru â darpar fabwysiadwr a/neu fabwysiadwr, rhiant maeth neu ofalwr lleoli oedolion. Ar gyfer gwasanaeth eirioli, disgrifiwch yr amrediad o anghenion eiriolaeth y gall y gwasanaeth ddarparu cymorth ar eu cyfer.

Mae'n bwysig eich bod yn disgrifio'r amrediad o anghenion y gall eich gwasanaeth eu diwallu. Bydd angen i'ch gwasanaeth fod yn hyblyg, felly ni fydd o reidrwydd yn diwallu'r holl anghenion hyn drwy'r amser. Y rheswm dros hyn yw bod anghenion pobl yn newid ac mae angen i wasanaethau addasu er mwyn ymateb i hyn, e.e. pobl oedrannus sy'n dod yn fwyfwy bregus sy'n gallu cael amrywiaeth eang o anghenion newidiol, gan gynnwys gofal lliniarol tuag at ddiwedd eu hoes.

b) Ystod oedran y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

c) Rhywedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

ch) Gwasanaethau llety yn unig

Capasiti Mwyaf

Nodwch nifer y bobl sy'n gallu defnyddio'r gwasanaeth – er enghraifft, mewn lleoliad preswyl, hwn fydd yr uchafswm o bobl y gellir darparu llety ar eu cyfer.

d) Gwasanaethau cymorth cartref, maethu, mabwysiadu, lleoli oedolion ac eiriolaeth yn unig.

Nodwch nifer y plant a/neu oedolion a gefnogir gan y gwasanaeth ar gyfartaledd.

dd) Gwasanaethau cymorth cartref yn unig

Nifer o Oriau Gofal a ddarperir

Nodwch nifer yr oriau o ofal a ddarperir bob wythnos ar gyfartaledd (ticiwch y blwch perthnasol).

0-250

251-500

501-750

751-1000

1001-1500

1501-2000

	2001-3000	<input type="checkbox"/>
	3000+	<input type="checkbox"/>

Adran 4A: Sut y darperir y gwasanaeth (gwasanaethau llety a gwasanaethau cymorth cartref yn unig)

Yn yr adran hon, dylech nodi'n glir sut rydych yn bwriadu darparu'r gwasanaeth. Dylech ddisgrifio sut byddwch yn sicrhau'r canlynol:

- 1. Bod pobl yn teimlo bod eu lleisiau yn cael eu clywed, y gallant ddewis eu gofal a'u cymorth a bod cyfleoedd ar gael iddynt.*
- 2. Bod pobl yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd a'u datblygiad parhaus a'u llesiant cyffredinol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol i blant.*
- 3. Bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.*
- 4. Bod pobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi eu llesiant ac yn rhoi cymorth iddynt gyflawni eu hamcanion personol yn y ffordd orau (ar gyfer gwasanaethau llety yn unig).*

Dylech ddisgrifio sut byddwch yn cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau gorau posibl ac yn darparu gofal a chymorth mewn modd sy'n gwarchod, hybu ac yn cynnal eu hannibyniaeth, eu diogelwch a'u lles. Os ydych wedi dweud bod gofal arbenigol yn cael ei gynnig, rhaid i chi ddefnyddio'r adran hon i nodi'r hyn sy'n ei wneud yn wasanaeth arbenigol. Dylech gynnwys manylion unrhyw fodolau gofal penodol sy'n cael eu defnyddio yn y gwasanaeth ac ymglymiad unrhyw asiantaethau arbenigol allanol a fydd yn darparu help a chymorth mewn meysydd arbenigol.

Dylai'r adran hon hefyd gynnwys:

- a) Trefniadau ar gyfer derbyn, asesu, cynllunio ac adolygu gofal pobl
- Trefniadau ar gyfer rheoli derbyniadau arfaethedig, brys a seibiant*
 - Trefniadau ar gyfer asesiadau anghenion gofal a chymorth cychwynnol a pharhaus*
 - Sut bydd y cynllun personol yn cael ei ddatblygu a'i adolygu mewn ymgynghoriad â'r sawl sy'n derbyn gofal a chymorth a/neu ei gynrychiolydd*

- b) Safon y gofal a'r cymorth

Bydd angen i hyn, pan fo'n briodol, ddisgrifio sut bydd y gwasanaeth yn cynorthwyo pobl i wneud y canlynol:

- bod mor iach â phosibl yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol;*
- bod yn ddiogel;*
- cymryd rhan mewn gweithgareddau, hobiau neu ddiddordebau unigol;*
- cael mynediad at addysg, dysgu a chyfleoedd datblygu;*
- cael rheolaeth dros fywyd bob dydd a, lle bo'n berthnasol, cymryd rhan mewn gwaith;*
- cynnal eu hunaniaeth ieithyddol, ddiwylliannol a/neu grefyddol;*
- cynnal perthnasau teuluol a phersonol; a datblygu eu potensial, dysgu, ac ymarfer sgiliau bywyd.*

- c) Anghenion iaith a chyfathrebu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Dylai'r adran hon hefyd ddisgrifio sut y bydd y darparwr yn diwallu anghenion iaith a chyfathrebu pobl, gan gynnwys i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer cynnig y Gymraeg ([pecyn gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar y cynnig gweithredol](#)).

Adran 4B: Sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu (gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu a gwasanaethau lleoli oedolion yn unig)

Yn yr adran hon, dylech nodi'n glir sut rydych yn bwriadu darparu'r gwasanaeth. Dylech ddisgrifio sut byddwch yn sicrhau'r canlynol:

- 1. Bod unigolion yn teimlo bod eu lleisiau yn cael eu clywed, y gallant ddewis eu gofal a'u cymorth a bod cyfleoedd ar gael iddynt.*
- 2. Bod unigolion yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd a'u datblygiad parhaus a'u llesiant cyffredinol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol i blant.*
- 3. Bod unigolion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.*

Dylech ddisgrifio sut y byddwch yn cynorthwyo unigolion i gyflawni eu canlyniadau gorau posibl ac yn cynorthwyo darpar fabwysiadwyr a/neu fabwysiadwyr, rhieni maeth a gofalwyr lleoli oedolion i ddarparu gofal a chymorth mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal annibyniaeth, diogelwch a llesiant yr unigolion hynny.

Dylai'r adran hon hefyd gynnwys:

- a)** Trefniadau ar gyfer asesu, cynllunio ac adolygu gofal a chymorth unigolyn²
 - Trefniadau ar gyfer ystyried pa mor addas yw'r gwasanaeth ac unrhyw asesiad parhaus o anghenion gofal a chymorth (yn ôl yr angen)*
 - Sut y caiff cynllun personol yr unigolyn, ar gyfer gwasanaeth lleoli oedolion, ei ddatblygu a'i adolygu mewn ymgynghoriad â'r unigolyn sy'n derbyn gofal a chymorth a/neu ei gynrychiolydd*
 - Sut mae'r gwasanaeth maethu neu'r gwasanaeth mabwysiadu'n cyfrannu at gynllun gofal a chymorth neu gynllun mabwysiadu/lleoli'r unigolyn.*
- b)** Safon y gofal a'r cymorth

Lle y bo'n briodol, mae angen disgrifio sut y bydd y gwasanaeth yn cynorthwyo darpar fabwysiadwyr a/neu fabwysiadwyr, rhieni maeth a gofalwyr lleoli oedolion i roi gofal a chymorth i unigolion sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal eu diogelwch a'u llesiant ac sy'n parchu eu credoau ieithyddol, diwylliannol a/neu grefyddol.
- c)** Anghenion iaith a chyfathrebu ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Dylai'r adran hon hefyd ddisgrifio sut y bydd y darparwr yn diwallu anghenion iaith a chyfathrebu unigolion, gan gynnwys i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer cynnig y Gymraeg ([pecyn gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar y cynnig gweithredol](#)).

² Ar gyfer gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, mae unrhyw gyfeiriad at 'ofal a chymorth' yn golygu 'cymorth'.

Adran 4C: Sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu (gwasanaethau eiriolaeth yn unig)

Yn yr adran hon, dylech nodi'n glir sut rydych yn bwriadu darparu'r gwasanaeth. Dylech ddisgrifio sut byddwch yn sicrhau'r canlynol:

- 1. Bod unigolion yn teimlo bod eu lleisiau yn cael eu clywed, y gallant ddewis eu gofal a'u cymorth a bod cyfleoedd ar gael iddynt.*
- 2. Bod unigolion yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd a'u datblygiad parhaus a'u llesiant cyffredinol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol i blant.*
- 3. Bod unigolion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.*

Dylech ddisgrifio sut y byddwch yn cynorthwyo unigolion i ddiwallu eu hangen am eiriolaeth.

Dylai'r adran hon hefyd gynnwys:

- a) Trefniadau ar gyfer asesu, cynllunio ac adolygu eiriolaeth unigolyn
 - *Trefniadau ar gyfer ystyried pa mor addas yw'r gwasanaeth*
 - *Sut y caiff cynllun eiriolaeth yr unigolyn ei ddatblygu a'i adolygu mewn ymgynghoriaeth â'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth eirioli a/neu ei gynrychiolydd*
- b) Safonau'r gwasanaeth

Lle y bo'n briodol, mae angen disgrifio sut y bydd y gwasanaeth yn sicrhau y caiff y gwasanaeth eirioli ei ddarparu mewn ffordd sy'n galluogi unigolion i fynegi eu barn ac sy'n sicrhau bod y farn honno'n cael ei chynrychioli; ac sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion. Dylai hyn gynnwys sut y bydd y gwasanaeth yn parchu credoau ieithyddol, diwylliannol a/neu grefyddol yr unigolyn. Dylai'r darparwr hefyd nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i gael cyngor neu gymorth neu gyngor cyfreithiol neu gyngor arbenigol arall mewn achosion lle y bo angen hynny ar unigolyn.
- c) Anghenion iaith a chyfathrebu ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Dylai'r adran hon hefyd ddisgrifio sut y bydd y darparwr yn diwallu anghenion iaith a chyfathrebu unigolion, gan gynnwys i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer cynnig y Gymraeg ([pecyn gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar y cynnig gweithredol](#)).

Adran 5: Trefniadau staffio

Mae angen i'r adran hon ddisgrifio sut mae'r trefniadau staffio'n briodol ar gyfer yr amrediad o anghenion a'r gwasanaethau arbenigol a fydd yn cael eu darparu, fel y disgrifiwyd yn Adran 3.

Dylai ddangos sut bydd staff yn cael eu defnyddio i ddarparu gofal dibynadwy a diogel ar gyfer unigolion.

Dylai hyn gynnwys y canlynol:

a) Niferoedd y staff a'u cymwysterau

Dylai'r adran hon gynnwys niferoedd y staff canlynol a'u cymwysterau (lle y bônt yn berthnasol i'r gwasanaeth):

- y rheolwr a'i gymwysterau penodol;
- y dirprwy reolwr a'i gymwysterau penodol;
- staff goruchwyliol eraill a'u cymwysterau penodol;
- nyrsys cofrestredig a natur eu cofrestriad, e.e. nyrs gyffredinol gofrestrdig, nyrs iechyd meddwl gofrestrdig, nyrs anabledau dysgu gofrestrdig, ac ati;
- staff gofal cymdeithasol uwch sy'n darparu gofal uniongyrchol a disgrifiad o lefelau'r cymwysterau, h.y. Lefel 2/3 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau;**
- staff gofal cymdeithasol eraill sy'n darparu gofal uniongyrchol a disgrifiad o lefelau'r cymwysterau, h.y. Lefel 2/3 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau,** a
- mathau eraill o staff cymwys nad ydynt wedi'u rhestru uchod a disgrifiad o lefelau'r cymwysterau.

Pan fydd gofal arbenigol, e.e. dementia, gofal lliniarol ac ati, yn cael ei ddarparu, rhaid i chi allu dangos cymwysterau, hyfforddiant a sgiliau'r staff i ddarparu'r gofal arbenigol hwn.

Dylai nifer gofynnol y staff fod yn ddigon i ddiwallu anghenion rota arferol mewn modd cynaliadwy a dibynadwy.

**O ran gwasanaeth cymorth cartref, efallai yr hoffech chi ddarparu cyfanswm y staff gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn wythnos ar gyfartaledd, cyfanswm yr oriau staff fesul wythnos, a disgrifiad o lefelau'r cymwysterau, h.y. Lefel 2/3 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau.

***O ran gwasanaethau maethu, mabwysiadu, lleoli oedolion ac eiriolaeth, efallai yr hoffech nodi cyfanswm y staff gofal cymdeithasol a gyflogir a disgrifiad o lefel eu cymwysterau, e.e. lefel 2/3 QCF.

b) Lefelau staff (ar gyfer gwasanaethau llety a gwasanaeth cymorth cartref yn unig)

Gwasanaethau llety. Dylai'r adran hon gynnwys y lefelau staffio a fydd ar waith fel arfer yn ystod y dydd a'r nos. Hwn yw'r nifer arfaethedig o staff y bydd y gwasanaeth yn eu defnyddio o un dydd i'r llall, h.y. y rota arferol.

	<ul style="list-style-type: none"> <i>Mewn gwasanaethau cartrefi gofal, lle y caiff unigolion eu hasesu fel rhai sydd angen gofal nyrsio 24 awr (oherwydd dwysedd, cymhlethdod a/neu ddirifoldeb eu hanghenion), dylai'r adran hon ddisgrifio nifer y nyrsys cofrestredig a fydd yn gweithio yn y gwasanaeth ar bob adeg.</i> <p>Gwasanaethau cymorth cartref. <i>Dylai'r adran hon gynnwys y lefelau staffio yn ystod y dydd a fydd ar waith fel arfer. Dyma nifer y staff y mae'r gwasanaeth yn bwriadu eu rhoi ar waith o ddydd i ddydd, h.y. y rota nodweddiadol ar gyfer gwasanaeth cymorth cartref.</i></p>
c) Staff arbenigol	<i>Yn yr adran hon, cofnodwch nifer y staff arbenigol sydd ynghlwm wrth y gwasanaeth a'u manylion.</i>
ch) Y defnydd o staff yn y gwasanaeth (ar gyfer gwasanaethau llety yn unig)	<p><i>Yn yr adran hon, disgrifiwch sut bydd y staff yn cael eu defnyddio ar draws yr amgylchedd gofal / dyluniad a gosodiad y llety i oruchwyllo a diwallu anghenion yr unigolion hynny. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn safleoedd aml-lawr neu aml-adeilad.</i></p> <p><i>Wrth ddisgrifio'r lefelau staffio, gallai fod gennych niferoedd neu gymarebau penodol. Dylech egluro sut y caiff lefelau dibyniaeth eu hystyried yn eich penderfyniad.</i></p> <p><i>Efallai yr hoffech ddangos y strwythur staffio gyda diagram.</i></p>
d) Trefniadau ar gyfer tasgau a ddirprwyir (ar gyfer gwasanaethau llety a gwasanaethau cymorth cartref yn unig)	<p><i>Yn yr adran hon, nodwch y trefniadau llywodraethu ar gyfer dirprwyo unrhyw dasgau gofal arbenigol neu benderfyniadau.</i></p> <p><i>Dangoswch sut bydd staff yn cael eu defnyddio i ddarparu gofal dibynadwy a diogel ar gyfer unigolion.</i></p>
dd) Trefniadau goruchwyllo	<i>Yn yr adran hon, nodwch y trefniadau goruchwyllo a chymorth.</i>
e) Hyfforddiant staff	<i>Yn yr adran hon, nodwch raglen hyfforddi'r staff.</i>

Adran 6: Cyfleusterau a gwasanaethau

Gwasanaethau llety yn unig

Yn yr adran hon, dylech ddisgrifio'r dyluniad, y gosodiad, y cyfleusterau a/neu'r offer sydd ar gael a sut maen nhw'n cefnogi anghenion amrywiol y bobl y bwriedir y gwasanaeth ar eu cyfer, fel y disgrifiwyd yn Adran 3 uchod. Os oes unrhyw nodweddion unigryw neu benodol am y rhain, dylech chi eu disgrifio yma.

NODER: Nid yw'r adran hon yn berthnasol i drefniadau byw â chymorth.

Dylech gynnwys gwybodaeth am:

a) Nifer yr ystafelloedd sengl ac ystafelloedd a rennir	Nodwch nifer yr ystafelloedd sengl a'r ystafelloedd a rennir.
b) Nifer o ystafelloedd gyda chyfleusterau en-suite	Nodwch nifer yr ystafelloedd â chyfleusterau en-suite.
c) Nifer o fannau bwyta	Nodwch nifer y manau bwyta.
ch) Nifer o ardaloedd cymunedol	Nodwch nifer yr ardaloedd cymunedol.
d) Cyfleusterau ymdrochi arbenigol	Nodwch y cyfleusterau ymdrochi arbenigol sydd yn y gwasanaeth hwn.
dd) Offer arbenigol	Nodwch yr offer arbenigol yn y gwasanaeth hwn.
e) Y trefniadau diogelu sydd ar waith a'r defnydd o deledu cylch cyfyng	Nodwch y trefniadau diogelu sydd ar waith a'r defnydd o deledu cylch cyfyng.
f) Mynediad at fannau a chyfleusterau awyr agored yn y gwasanaeth hwn	<p><i>Yn yr adran hon, disgrifiwch y manau a'r cyfleusterau awyr agored sydd ar gael a sut gall pobl gael mynediad at y rhain.</i></p> <p><i>Mae'n bwysig eich bod chi'n disgrifio sut mae'r amgylchedd a'r cyfleusterau'n cefnogi pobl â namau i fyw bywyd mor llawn â phosibl ac i gael mynediad at bob rhan o'r cartref a'i gyffiniau.</i></p>

Gwasanaethau cymorth cartref, maethu, mabwysiadu, lleoli oedolion ac eiriolaeth yn unig

Yn yr adran hon, dylech:

- ddarparu gwybodaeth am y cyfleusterau i: storio cofnodion yn ddiogel;
- cwrdd ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
- darparu hyfforddiant staff; a/neu
- gwrdd â staff (lle y bo'n briodol).

Adran 7: Trefniadau llywodraethu a monitro ansawdd

Yn yr adran hon, dylech ddisgrifio'r trefniadau goruchwylio a llywodraethu sydd ar waith er mwyn sefydlu a chynnal diwylliant sy'n sicrhau bod unigolion yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl (neu, yn achos gwasanaeth eirioli, bod anghenion yr unigolion am eiriolaeth yn cael eu diwallu).

Dylai hyn gynnwys y trefniadau ar gyfer:

- sut bydd yr unigolyn cyfrifol yn cynnal y gwaith o oruchwylio rheolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, gan gynnwys pa mor aml y mae'n ymweld â'r gwasanaeth;*
- strwythur rheoli'r gwasanaeth, a'r llinellau atebolrwydd, dirprwyo a chyfrifoldeb;*
- y mesurau a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth (neu, yn achos gwasanaeth mabwysiadu neu wasanaeth eirioli, mesurau a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro, adolygu a gwella safon y gwasanaeth hwnnw);*
- ymdrin â chwynion; ac*
- ymgynghori â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, staff a rhanddeiliaid eraill er mwyn effeithio ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei gyflwyno a'i wella.*

**Atodiad 1: Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru)
2017: Rheoliadau 3, 4, 6, 7 ac 8**

Rheoliad 3: Rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig,⁽³⁾ yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn Adran 6 (1) (a) i (c), ddarparu i Weinidogion Cymru y canlynol—

- a) yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 1;
- b) mewn cysylltiad ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ynddo;
- c) mewn cysylltiad ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef;
- ch) mewn cysylltiad ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth cymorth cartref, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef.

Rheoliad 4: Rhaid i'r datganiad o ddiben y mae'n ofynnol ei ddarparu yn unol â Rheoliad 3 (b), (c) neu (d) gynnwys yr wybodaeth a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Rheoliad 6: Rhaid i gais i amrywio cofrestriad a wneir yn unol ag Adran 11 (1) (a) (i), yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn Adran 11 (3) (a) (i) a, phan fo'n briodol, Adran 11 (3) (a) (ii), gynnwys y canlynol—

- a) yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 1;
- b) mewn cysylltiad â cheisiadau i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ynddo;
- c) mewn cysylltiad â cheisiadau i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef;
- ch) mewn cysylltiad â cheisiadau i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth cymorth cartref, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef.

Rheoliad 7: Rhaid i gais i amrywio cofrestriad a wneir yn unol ag Adran 11 (1) (a) (ii), yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn Adran 11 (3) (a) (i), gynnwys y canlynol—

- a) yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 1;
- b) mewn cysylltiad â chais i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd mewn man nad yw eisoes wedi ei bennu yng nghofrestriad y darparwr mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw, datganiad o ddiben ar gyfer y man hwnnw;
- c) mewn cysylltiad â cheisiadau i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli mewn perthynas â man nad yw eisoes wedi ei bennu yng

⁽³⁾ Gweler Adran 2 ac Atodlen 1 o'r Ddeddf am ddiffiniad o "wasanaeth rheoleiddiedig".

- nghofrestriad y darparwr mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw, datganiad o ddiben ar gyfer y man hwnnw;
- ch) mewn cysylltiad â chais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth cymorth cartref mewn perthynas â man nad yw eisoes wedi ei bennu yng nghofrestriad y darparwr mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw, datganiad o ddiben ar gyfer y man hwnnw.

Rheoliad 8: Rhaid i'r datganiad o ddiben y mae'n ofynnol ei ddarparu yn unol â Rheoliad 6 (b), (c) neu (d), neu yn unol â Rheoliad 7 (b), (c) neu (d), gynnwys yr wybodaeth a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Atodiad 2: Atodlen 2, Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017: Yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn datganiad o ddiben

Mae'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn datganiad o ddiben fel a ganlyn—

- a) enw'r ymgeisydd;
- b) pan fo'r ymgeisydd yn unigolyn, cyfeiriad yr unigolyn ar gyfer gohebiaeth;
- c) pan fo'r ymgeisydd yn sefydliad, cyfeiriad prif swyddfa neu swyddfa gofrestrdig y sefydliad;
- ch) yn achos gwasanaeth cartref gofal, enw a chyfeiriad y man y darperir y gwasanaeth ynddo;
- d) yn achos gwasanaeth cymorth cartref—
 - a. enw'r gwasanaeth
 - b. yr ardal y darperir y gwasanaeth mewn perthynas â hi;
 - c. cyfeiriadau'r swyddfa neu'r swyddfeydd y darperir y gwasanaeth ohoni neu ohonynt;
 - ch. cyfeiriadau unrhyw swyddfa arall neu unrhyw swyddfeydd eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth;
- d)(a) yn achos gwasanaeth mabwysiadau, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli—
 - a. enw'r gwasanaeth;
 - b. yr ardal y darperir y gwasanaeth mewn perthynas â hi;
 - c. cyfeiriadau'r swyddfa neu'r swyddfeydd y darperir y gwasanaeth ohoni neu ohonynt;
 - ch. cyfeiriadau unrhyw swyddfa arall neu swyddfeydd eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth;
- dd) enw'r unigolyn a ddynodir gan yr ymgeisydd i fod yn unigolyn cyfrifol ar gyfer y man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef;
- e) datganiad o ystod anghenion yr unigolion y mae'r gwasanaeth rheoleiddiedig i gael ei ddarparu ar eu cyfer, sydd i gynnwys ystod oedran, nifer a rhyw unigolion o'r fath;
- f) sut y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu i ddiwallu anghenion unigolion a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol, fel sy'n ofynnol gan reoliadau o dan Adran 27 a chan ystyried yr ystod o anghenion a nodir yn y datganiad o ddiben (gweler paragraff (e));
- ff) manylion strwythur rheoli a staffio arfaethedig y gwasanaeth;
- g) manylion y fangre, y cyfleusterau a'r cyfarpar a fydd ar gael i unigolion yn unol â gofynion y rheoliadau a wneir o dan Adran 27 a chan ystyried yr ystod o anghenion a nodir yn y datganiad o ddiben (gweler paragraff (e));
- ng) yn achos gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, disgrifiad o'r ardal y mae'r gwasanaeth wedi ei leoli ynddi, a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymunedol sydd ar gael yno;
- h) manylion y trefniadau a wneir i gefnogi anghenion diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol yr unigolion;
- i) manylion y trefniadau a wneir ar gyfer ymgynghori ag unigolion ynghylch gweithredu'r gwasanaeth rheoleiddiedig;

- j) manylion ynghylch sut y bydd y darparwr yn diwallu anghenion iaith a chyfathrebu unigolion, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg;
- l) manylion unrhyw ofal iechyd (gan gynnwys nyrsio) neu therapi sydd i gael ei ddarparu yn y fangre y bwriedir darparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig ynddi.

Geirfa

Gwasanaethau llety: Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel.

Gwasanaethau cymorth cartref: Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau byw â chymorth.

Ardal partneriaeth ranbarthol: Y rhain yw'r ardaloedd partneriaeth ranbarthol a nodwyd yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol wneud trefniadau partneriaeth er mwyn cyflawni swyddogaethau penodol. Yn y rheoliadau hyn, mae saith ardal bartneriaeth wedi'u nodi. Dyma nhw fel a ganlyn:

1. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent:
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
 - Cyngor Sir Fynwy
 - Cyngor Dinas Casnewydd
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
2. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru:
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
 - Cyngor Sir y Fflint
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
 - Cyngor Sir Ynys Môn
 - Cyngor Sir Gwynedd
 - Cyngor Sir Ddinbych
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
3. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro:
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
 - Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
 - Cyngor Bro Morgannwg
4. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
 - Cyngor Dinas a Sir Abertawe
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
5. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg:
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
6. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru:
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
 - Cyngor Sir Penfro
 - Cyngor Sir Caerfyrddin
 - Cyngor Sir Ceredigion
7. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys:
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
 - Cyngor Sir Powys

Gofal/gwasanaeth arbenigol: Pan fyddwn yn cyfeirio at wasanaeth arbenigol, rydym yn golygu gwasanaeth sydd wedi'i deilwra'n benodol i ofalu am grŵp penodol o bobl neu bobl â math penodol o gyflwr – er enghraifft, niwed i'r ymennydd, anabledd dysgu, nam ar y synhwyrâu ac ati. Bydd hyn yn gofyn am lefel angen uwch nag arfer, a allai fod angen:

- hyfforddiant a/neu gymwysterau arbennig i ddeall a diwallu anghenion;
- amgylchedd sydd wedi'i gynllunio i gefnogi'r cyflwr penodol neu grŵp penodol o bobl;
- offer arbenigol i gefnogi'r cyflwr penodol neu'r grŵp penodol o bobl; a/neu
- ddwysedd uwch o oriau cymorth sgîl uchel.

Modelau gofal: Hwn yw'r dull neu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Fel arfer, mae modelau gofal yn seiliedig ar arferion gorau wrth ofalu am grŵp penodol o bobl wrth iddynt fynd trwy gamau cyflwr, anaf neu ddigwyddiad.